Gwybodaeth bwysig am eich gofal
iechyd gan GIG Cymru

GIG CYMRU NHS WALES



# Y Cofnod Lechyd Unigol

## Yn darparu gofal gwell, mwy diogel pan fydd eich meddygfa ar gau gyda'r nos ac ar benwythnosau

Mae eich Cofnod Lechyd Unigol yn rhannu darnau o'ch cofnod meddygol sydd gan eich meddyg teulu â phobl sy'n gofalu amdanoch os ydych yn sâl y tu allan i oriau neu mewn argyfwng.

Mae'n rhoi gwybodaeth werthfawr i feddygon a gweithwyr iechyd proffesiynol i'w helpu i wneud y penderfyniadau gorau ynghylch eich gofal.

Dim ond gweithwyr iechyd proffesiynol mewn gwasanaethau brys lleol a gwasanaethau y tu allan i oriau sy'n gwasanaethu practis eich meddyg teulu all weld eich Cofnod Lechyd Unigol. Mae'n rhaid iddynt ofyn am eich caniatâd cyn iddynt edrych ar eich gwybodaeth.

I gael gwybodaeth, gofynnwch yn eich meddygfa, ewch i **www.nhsdirect.wales.nhs.uk** neu ffoniwch Galw Iechyd Cymru ar **0845 4647**.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government